Ymddiriedaeth Caredigrwydd Gobaith

**“ Gyda’n gilydd, byddwn yn rhoi diwedd ar dlodi”**

**POLISI CLWYDALYN**

# Polisi Rheoli Peryglon yn y Cartref

**IMS/AM-POL-10c**
**Fersiwn 3**

**Gallwn ddarparu’r ddogfen hon mewn fformatau eraill. I wneud cais am fformat gwahanol, cysylltwch â’r tîm rheoli dogfennau hsqe@clwydalyn.co.uk**

ClwydAlyn

**ClwydAlyn Housing Limited**
72 Ffordd William Morgan,
Parc Busnes Llanelwy, Llanelwy,
Sir Ddinbych, LL17 0JD

**ClwydAlyn Housing Limited**
72 Ffordd William Morgan,
St Asaph Business Park, St Asaph,
Denbighshire, LL17 0JD

## Cysylltwch â ni

| | | |
|---|---|---|
| | Gwasanaeth i Gwsmeriaid | Dydd Llun i ddydd Gwener 08:00 – 17:00 Rhadffôn o linell tir 0800 183 5757 neu 01745 536800 |
| | Gwaith trwsio argyfwng y tu allan i oriau | 0300 1233091 neu anfonwch neges destun 07786 202533 (cofiwch gynnwys eich enw, cyfeiriad a rhif ffôn yn eich neges). |
| | E-bost/ar-lein | help@clwydalyn.co.uk neu ar-lein @ https://www.myclwydalyn.co.uk/ |
| | Cyfeiriad post | 72 Ffordd William Morgan, Parc Busnes Llanelwy, Llanelwy, Sir Ddinbych LL17 0JD |

## #Dylanwadwch

Hoffech chi gael cyfle i roi adborth ar y pethau sy'n bwysig i chi fel preswylydd ClwydAlyn? Hoffech chi ein helpu i lunio a gwella'r gwasanaeth rydym yn ei ddarparu i chi? Allwch chi sbario munud neu ddau, neu ychydig oriau bob mis? Os felly, dyma eich cyfle i ddod yn Ddylanwadwr gyda ClwydAlyn, felly cliciwch ar ein ffurflen #Dylanwadwch neu anfonwch e-bost atom influenceus@clwydalyn.co.uk

## Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Rydym wedi ceisio sicrhau bod y ddogfen hon yn gynhwysol i bawb. Os oes gennych unrhyw awgrymiadau neu os hoffech gael y ddogfen hon mewn fformat gwahanol, cysylltwch â'r tîm rheoli dogfennau yn hsqe@clwydalyn.co.uk

## Gwybodaeth am Ddogfennau /Rheoli Dogfennau

Mae'r ddogfen hon yn ddatganiad y cytunwyd arno sy'n cynnwys y set o egwyddorion sy'n gweithredu fel canllawiau i gyflawni nodau ClwydAlyn. Ni ellir newid y ddogfen hon oni bai y rhoddir awdurdod i wneud hynny gan ddefnyddio'r nodyn awdurdodi newid dogfen QF-F-10.

Cedwir y copi meistr gan y Rheolwr Dogfennau, cedwir y fersiwn PDF yn SharePoint ClwydAlyn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â rheoli dogfennau hsqe@clwydalyn.co.uk

## Rhif Cyhoeddi a Hanes Adolygu

| Rhif y Fersiwn | Manylion Adolygu /Rheswm dros newid | Awdur | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| V1 | Adolygwyd cyhoeddiad cyntaf y polisi gan y Gweithgor | B. Jones | 01/03/2026 |
| V2 | Adolygwyd gan Craig Sparrow/ Golygiadau ac awgrymiadau wedi'u cwblhau. Wedi'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Eiddo 13/04/2026 | B. Jones | 13/04/2026 |
| V3 | Mân olygiadau i adlewyrchu'r Dogfennau Atodol a gwblhawyd | B. Jones | 28/07/2026 |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

## Cynnwys


1 Pwrpas ..... 3

2 Cwmpas ..... 3

3 Cyd-destun Deddfwriaethol ..... 3

4 Categorïau Peryglon ..... 4

4.1 Mathau o Beryglon /Prif Gategorïau ..... 4
4.2 Grwpiau yr effeithir arnynt /agored i niwed ..... 4
4.3 Egwyddorion HHSRS ..... 5
4.4 Cysylltiadau â pholisïau sy'n bodoli'n barod ..... 5

5 Gofynion Adrodd SATC ..... 6

5.1 Pryd dylid adrodd am berygl ..... 6
5.2 Sut i Adrodd o dan SATC ..... 6
5.3 Amseroedd Ymateb ..... 7

6 Rolau a Chyfrifoldebau Cyffredin ..... 7

6.1 Tîm Eiddo ..... 7
6.2 Swyddogion Tai a Gwasanaethau Tai ..... 7
6.3 Timau Gwaith Trwsio a Chynnal ..... 7
6.4 Tîm Cydymffurfiaeth a Diogelwch Adeiladau ..... 8
6.5 Pob aelod staff a Chontractwyr ..... 8

7 Cyfathrebu â Phreswylwyr ..... 8

8 Monitro ac Adolygu ..... 9

## 1 Pwrpas

Mae'r polisi hwn yn amlinellu dull gweithredu ClwydAlyn wrth nodi, asesu, cofnodi a rheoli peryglon yng nghartrefi ClwydAlyn. Mae'n darparu fframwaith clir a chyson i sicrhau bod eiddo yn cael eu cynnal mewn cyflwr sy'n cefnogi diogelwch a llesiant preswylwyr ac yn cydymffurfio â'r gyfraith.

Yn unol â Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Ffitrwydd Annedd i Bobl Fyw Ynddi) (Cymru) 2022, mae'n ofynnol i ClwydAlyn sicrhau bod pob cartref yn rhydd rhag peryglon a allai peri risg i iechyd, diogelwch, neu les preswylwyr. Mae'r polisi hwn yn amlinellu'r safonau, prosesau a chyfrifoldebau sy'n galluogi ClwydAlyn i fodloni'r dyletswyddau safonol hyn.

Mae'r polisi hwn yn cael ei ategu gan Ddogfen Atodol (Peryglon (Elfen 1c)) sy'n disgrifio'r dull ar gyfer cofnodi ac adrodd am beryglon gan ddefnyddio fframwaith Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC), gan sicrhau bod yr holl beryglon a nodwyd yn cael eu dogfennu, eu hasesu a'u blaenoriaethu, ac y rhoddir sylw iddynt mewn ffordd dryloyw ac archwiliadwy.

Trwy'r trefniadau hyn, mae ClwydAlyn yn sicrhau dull gweithredu cyson, amddiffynadwy, sy'n berthnasol i'r sefydliad cyfan wrth nodi a rheoli peryglon ar draws ei bortffolio tai, gan gefnogi gwelliant a chydymffurfedd parhaus â safonau tai cenedlaethol.

## 2 Cwmpas

Mae'r polisi hwn yn gymwys i'r canlynol:

- Pob eiddo sydd o fewn cwmpas gofynion a chyfrifoldebau SATC. Mae'r rhain yn cynnwys tai sy'n eiddo i ClwydAlyn ac sy'n cael eu rheoli ganddo o dan drefniadau trwydded neu gontractau meddiannaeth, yn benodol tai Anghenion Cyffredinol, cynlluniau Gofal Ychwanegol, Cartrefi Gofal a Nyrsio, Cartrefi'r Grŵp, eiddo Rhent Canolradd, a phortffolios Cytundebau Rheoli dethol
- Pob tîm Eiddo, Cydymffurfiaeth, Gwaith Trwsio, a Rheoli Tai (gan gynnwys Tai Fforddiadwy)
- Contractwyr sy'n gwneud gwaith trwsio neu arolygu/archwilio

## 3 Cyd-destun Deddfwriaethol

Yn unol â Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 a'r Rheoliadau Ffitrwydd Annedd i Bobl Fyw Ynddi (2022), rhaid i bob cartref rhent fodloni'r gofynion canlynol:

- Mae'r annedd yn ffit i bobl fyw ynddi ar ddechrau a thrwy gydol y denantiaeth.

- Yn rhydd rhag peryglon difrifol a allai achosi niwed i'r preswyliwr.
- Yn cydymffurfio â'r gofynion allweddol canlynol:
    - Larymau mwg sy'n gweithio
    - Larymau carbon monocsid
    - Profion diogelwch trydanol (bob 5 mlynedd)
    - Strwythur a gosodiadau diogel a chadarn
    - Dim lleithder, anwedd neu lwydni difrifol
    - Tymereddau mewnol iach

Mae'r polisi hwn hefyd yn cydymffurfio â Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) 2023, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r landlord ddarparu cartrefi sy'n saff ac yn ddiogel, yn cael eu gwersogi'n ddigonol ac yn rhydd rhag beryglon, a thystiolaeth o ddull gweithredu cyson wrth nodi a rheoli risgiau yn y cartref.

## 4 Categorïau Peryglon

Mae peryglon yng nghartrefi ClwydAlyn yn cael eu categoreiddio a'u hasesu yn unol â fframweithiau cenedlaethol. Mae'r categorïau ac egwyddorion canlynol yn gymwys:

Diffinnir perygl fel unrhyw risg o niwed i iechyd neu ddiogelwch preswylwyr neu ymwelwyr. Mae'r prif grwpiau peryglon yn cynnwys:

### 4.1 Mathau o Beryglon /Prif Gategorïau

Mae'r canlynol yn fathau o beryglon

- Peryglon tân a thrydanol
- Lleithder, llwydni, ac anwedd
- Problemau strwythurol
- Peryglon diogelwch nwy
- Risg cwympo (grisiau, goleuadau)
- Glanweithdra a pheryglon cyflenwad dŵr
- Gormodedd o oerfel neu wres

Er mwyn sicrhau dull gweithredu cyson, mae peryglon yn cael eu categoreiddio yn ôl math, grwpiau yr effeithir arnynt, a'u haesu gan ddefnyddio egwyddorion HHSRS

### 4.2 Grwpiau yr effeithir arnynt /agored i niwed

Rhaid i ClwydAlyn ystyried sut mae'r peryglon hyn yn effeithio ar y canlynol:

- Aelwydydd agored i niwed
- Plant

- Pobl hŷn
- Pobl â chyflyrau iechyd tymor hir

## 4.3 Egwyddorion HHSRS

Er mwyn sicrhau dull gweithredu cyson a thryloyw sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar draws pob eiddo, bydd ClwydAlyn yn cymhwyso egwyddorion y System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai (HHSRS), sy'n darparu dull strwythuredig ar gyfer nodi a gwerthuso pergylon iechyd a diogelwch posibl mewn cartrefi.

Nid yw'n ofynnol i landlordiaid ddefnyddio HHSRS fel adnodd asesu neu sgorio ffurfiol ar gyfer peryglon. Yn hytrach, bydd y sefydliad yn cymhwyso egwyddorion sylfaenol HHSRS—fel nodi ffynonellau niwed posibl, deall grwpiau sy'n wynebu'r risg mwyaf, ac ystyried canlyniadau tebygol—fel pwynt cyfeirio cyson i lywio barn broffesiynol. Bydd y dulliau o gategoreiddio peryglon, blaenoriaethu, a gwneud penderfyniadau yn cael eu pennu gan broses asesu fewnol ClwydAlyn yn unig, sy'n darparu fframwaith fwy clir, ymarferol a phriodol wrth bennu ymatebion a sicrhau cysondeb sefydliadol.

Bydd unrhyw benderfyniadau ynghylch a yw rhywbeth yn peri Risg Sylweddol yn seiliedig ar egwyddorion HHSRS, barn broffesiynol a'r dystiolaeth sydd ar gael, a bydd y rhesymeg ar gyfer penderfyniadau yn cael ei chofnodi at ddibenion archwilio a sicrwydd.

## 4.4 Cysylltiadau â pholisïau sy'n bodoli'n barod

Mae'r dull hwn yn cael ei roi ar waith ochr yn ochr â'r safonau a'r gofynion sydd wedi'u nodi ym Mholisi SATC 2023, y Polisi Rheoli Asbestos, y Polisi Diogelwch Nwy, y Polisi Hylendid Dŵr, y Polisi Diogelwch Trydanol, y Polisi Diogelwch Tân, a'r Polisi Lleithder, Llwydni, ac Anwedd. Gyda'i gilydd, mae'r fframweithiau hyn yn sicrhau y caiff pob mater sy'n cael ei adrodd ei asesu gan ddefnyddio canllawiau cenedlaethol cydnabyddedig, ei gofnodi'n briodol, ac y rhoddir sylw iddo mewn ffordd sy'n blaenoriaethu diogelwch preswylwyr, yn cefnogi sicrwydd ansawdd, ac yn cryfhau rheoli asedau yn y tymor hir.

I sicrhau bod Peryglon yn cael eu rheoli mewn ffordd ragweithiol, rhaid rhannu cyfrifoldeb ar draws adrannau perthnasol. Dylai tasgau rheoli peryglon gael eu dyrannu i dimau gyda'r lefelau cymhwysedd priodol. Er eglurder, dylid defnyddio'r 'Ddogfen Atodol Peryglon (Elfen 1c)' ochr yn ochr â'r polisi hwn. Bydd pob perygl yn cael ei fonitro yn ôl dangosyddion perfformiad allweddol sydd wedi'u dyrannu i dimau penodol, fel yr amlinellir yn y canllawiau ategol.

## 5 Gofynion Adrodd SATC

Mae ClwydAlyn yn ei gwneud yn ofynnol i bob perygl a nodir gael ei adrodd a'i gofnodi'n ffurfiol yn y System Adrodd CX i sicrhau asesu, blaenoriaethu, a monitro cyson. Mae'r gofyniad adrodd hwn yn gymwys i unrhyw gyflwr a allai'n rhesymol beri risg i iechyd, diogelwch, neu lesiant, ac mae hyn yn gwbl ar wahân i'r broses drwsio arferol. Pan fydd yr angen am waith trwsio yn cael ei nodi mewn ymateb i risg perygl sylweddol, mae'n rhaid i'r staff hefyd gadw log manwl o'r gwaith trwsio, a'i ddiweddaru wrth i'r gwaith fynd rhagddo, a sicrhau bod y gwaith ar yr holl eitemau a restrir yn yr archeb waith yn cael ei gwblhau'n llawn cyn i'r archeb gael ei chau. Mae'r dull hwn yn sicrhau proses archwilio glir, yn cefnogi cydymffurfedd rheoleiddiol, ac yn sicrhau trosolwg sefydliadol cywir o'r risgiau sy'n dod i'r amlwg ac anghenion asedau yn y tymor hir.

### 5.1 Pryd dylid adrodd am berygl

Rhaid adrodd am berygl SATC pan fydd y canlynol yn gymwys:

Gall perygl risg sylweddol gael ei nodi yn ystod unrhyw fath o ymweliad ag eiddo. Mae enghreifftiau yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol): archwiliadau cyflwr stoc, archwiliadau ysgafn, ymweliadau lles, ac ymweliadau cartref blynyddol.

Mae preswyliwr yn adrodd am risg perygl sylweddol

Mae risg perygl sylweddol yn cael ei ganfod gan staff gwaith trwsio neu gontractwyr

Mae risg perygl sylweddol yn dod i'r amlwg yn ystod archwiliadau arferol (e.e., nwy, trydanol, cydymffurfedd)

Mae gan weithwyr ClwydAlyn sy'n ymwneud â phreswylwyr neu sy'n ymweld ag eiddo ddyletswydd i nodi peryglon posibl a sicrhau eu bod yn cael eu hadrodd yn fuan i'r adran briodol, yn unol â'r polisi hwn a gweithdrefnau cysylltiedig.

### 5.2 Sut i Adrodd o dan SATC

Rhaid i bob aelod staff ddilyn Gweithdrefn Adrodd SATC a gymeradwywyd, gan sicrhau bod peryglon yn cael eu categoreiddio'n gywir, a'u hategu gyda thystiolaeth briodol, eu blaenoriaethu yn ôl risg, a'u diweddaru trwy gydol eu cylchred bywyd.

### 5.3 Amseroedd Ymateb

Bydd amseroedd ymateb yn cael eu rheoli yn unol â rheol ymateb SATC Elfen Perygl 1c sydd wedi'i nodi yn y ddogfen ganllawiau atodol.

## 6 Rolau a Chyfrifoldebau Cyffredin

Mae ClwydAlyn yn defnyddio dull gweithredu cyfrifoldeb a rennir i nodi, adrodd, asesu, a datrys peryglon. Rhaid i'r timau sy'n gysylltiedig â rheoli eiddo, cydymffurfedd asedau, gwaith trwsio, a gwasanaethau preswylwyr gydweithio i sicrhau bod peryglon yn cael eu rheoli'n gyson ac yn unol â gofynion SATC a Ffitrwydd Annedd i Bobl fyw ynddi.

Mae manylion am rolau a chyfrifoldebau wedi'u hesbonio yn y Ddogfen Atodol Peryglon (Elfen 1c), a bydd pob tîm a ddyrannwyd yn gyfrifol am reoli ei berygl penodol.

### 6.1 Tîm Eiddo

Mae'r Tîm Eiddo yn gyfrifol am drosolwg sefydliadol o'r broses adrodd am beryglon SATC. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod pob perygl yn cael ei gofnodi a'i fonitro'n gywir, a bod y wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i lywio cynllunio gwaith cynnal a phenderfyniadau buddsoddi mewn asedau. Rhaid i'r tîm ddadansoddi tueddiadau, cefnogi sicrwydd ansawdd, a sicrhau bod preswylwyr yn cael eu hysbysu pan fydd y peryglon a nodir wedi cael eu datrys yn llawn.

### 6.2 Swyddogion Tai a Gwasanaethau Tai

Mae staff tai yn chwarae rôl allweddol wrth gynorthwyo preswylwyr i nodi peryglon a rhoi gwybod amdanynt, sicrhau mynediad ar gyfer archwiliadau a gwaith, a nodi pryderon diogelu neu lesiant sy'n gysylltiedig ag amodau eiddo. Rhaid i Swyddogion Tai sicrhau bod unrhyw beryglon a nodir yn ystod ymweliadau neu wrth ymgysylltu â phreswylwyr yn cael eu hadrodd yn fuan a'u huwchgyfeirio yn unol â'r polisi hwn a'r Polisi Diogelu lle bo'n gymwys.

### 6.3 Timau Gwaith Trwsio a Chynnal

Mae'r Timau Gwaith Trwsio a Chynnal yn gyfrifol am sicrhau bod unrhyw beryglon sy'n peri risg sylweddol neu ar unwaith yn cael eu gwneud yn ddiogel a chwblhau gwaith unioni o fewn yr amserlenni gofynnol. Rhaid iddynt roi diweddariadau cywir am waith a gwblhawyd er mwyn helpu i gau'r cofnod SATC a chydweithio â'r Timau Eiddo a Thai i fynd i'r afael â gofynion mynediad, cyfathrebu, a gwaith dilynol.

## 6.4 Tîm Cydymffurfiaeth a Diogelwch Adeiladau

Mae'r Tîm Cydymffurfiaeth a Diogelwch Adeiladau yn sicrhau bod gwiriadau diogelwch statudol yn cael eu cynnal, eu tystiolaethu, a'u rhoi ar waith. Mae'n gyfrifol am fonitro peryglon sy'n ymwneud â chydymffurfiaeth, sicrhau camau lliniaru risg priodol, ac uwchgyfeirio unrhyw achosion o dorri rheolau statudol neu risgiau sy'n dod i'r amlwg.

## 6.5 Pob aelod staff a Chontractwyr

Mae gan bob gweithiwr ClwydAlyn neu gontractwr sy'n ymweld ag eiddo gyfrifoldeb i nodi a rhoi gwybod am beryglon posibl. Mae hyn yn cynnwys staff sy'n gwneud ymweliadau cartref, yn cynnal arolygon, archwiliadau, a gweithgareddau ymgysylltu â phreswylwyr. Rhaid i bob contractwr ddilyn disgwyliadau adrodd am beryglon ClwydAlyn a chyfrannu gwybodaeth sy'n angenrheidiol ar gyfer cydymffurfio â SATC a sicrwydd diogelwch.

O dan Elfen 1c SATC, nid yw peryglon yn cael eu hasesu gan ddefnyddio sgorau difrifoldeb HHSRS. Yn hytrach, mae peryglon yn cael eu hasesu drwy broses asesu peryglon fewnol ClwydAlyn, sy'n dibynnu ar farn broffesiynol y tîm cymwysedig sy'n gyfrifol am y math o berygl. Mae pob tîm yn dilyn dull strwythuredig sy'n seiliedig ar dystiolaeth i bennu lefel y risg, blaenoriaethu, a'r camau gweithredu gofynnol. Mae'r dull hwn yn sicrhau bod peryglon yn cael eu categoreiddio mewn ffordd gyson, gywir a phriodol yn unol â rheolau ymateb peryglon SATC a safonau diogelwch gweithredol.

# 7 Cyfathrebu â Phreswylwyr

Rhaid i ClwydAlyn wneud y canlynol:

- Rhoi gwybod i breswylwyr yn fuan pan fydd peryglon yn cael eu nodi
- Cyfathrebu'n glir pa waith mae angen ei wneud a'r amserlenni
- Rhoi cyngor ar leihau risg (e.e., atal lleithder a llwydni)
- Rhoi cymorth i breswylwyr agored i niwed pan mae goblygiadau iechyd yn gysylltiedig â'r peryglon
- Darparu cynllun cryno ysgrifenedig os na ellir gwneud y perygl yn ddiogel o fewn yr amserlen ddisgwyliedig
- Sicrhau bod preswylwyr yn cael gwybod am gynnydd, gan gynnwys diweddariadau am unrhyw waith, trefniadau mynediad, a chwblhau gwaith (yn unol â disgwyliadau Ffitrwydd Annedd i Fyw Ynddi)

Mae gan ddeiliaid contract ddyletswydd i roi gwybod am beryglon yn fuan, darparu mynediad ar gyfer cynnal archwiliadau a gwaith trwsio, a dilyn cyngor diogelwch a roddir gan ClwydAlyn. Lle gall peryglon effeithio ar iechyd

neu lesiant, bydd angen cydweithrediad llawn ar gyfer gwaith unioni neu fesurau dros dro sydd eu hangen i wneud y cartref yn ddiogel.

## 8 Monitro ac Adolygu

Bydd mesurau perfformiad allweddol a threfniadau monitro sy'n ategu'r polisi hwn yn cael eu nodi yn y ddogfen atodol HHSRS Peryglon a Dulliau Cymhwyso dan dan SATC Elfen 1c (AM-P-26). Bydd y mesurau hyn yn ddiffinio sut mae achosion peryglon yn cael eu holrhain, yr amseroedd ymateb disgwyliedig ar gyfer categorïau risg gwahanol, a'r safonau ar gyfer diweddaru a chau cofnodion SATC. Bydd perfformiad yn cael ei adolygu'n rheolaidd drwy archwiliadau mewnol, adrodd ar ddangosyddion perfformiad allweddol, a throsolwg traws-adrannol i sicrhau ymatebion amserol i beryglon, adroddiadau SATC cywir, a gwelliant parhaus wrth reoli risgiau sy'n gysylltiedig ag eiddo. Bydd canfyddiadau ar sail yr adolygiadau hyn yn llywio anghenion hyfforddiant parhaus, gwelliannau i'r broses, a gweithgarwch sicrwydd ehangach.

Bydd y polisi yn cael ei adolygu'n flynyddol neu'n gynt os bydd y canlynol yn gymwys:

- Bydd canllawiau SATC yn newid
- Bydd y ddeddfwriaeth gysylltiedig yn cael ei diweddaru
- Bydd gweithdrefnau sefydliadol newydd yn cael eu rhoi ar waith